

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cofnodion cyfarfod y Fforwm Derbyn i Ysgolion a gynhaliwyd yn y Swyddfeydd Dinesig, 15 Tachwedd 2018

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

Mr R Davies (RD), Cadeirydd Rheolwr Grŵp - Busnes, Strategaeth a Pherfformiad
Mrs D Davies (DD) Prif Swyddog, Gwybodaeth a Chymorth i Ddysgwyr

Cynrychiolwyr Ysgolion

Mr J Tarran (JT), Is-Gadeirydd Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr
Archddiacon John Lewis
Mrs K John (KJ) Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla
Mrs S Jayne (SJ) Pennaeth, Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
Mr J Evans (JE) Pennaeth, Ysgol Heronsbridge

Cynrychiolwyr Llywodraethwyr

Mr W Bond (WB) Ysgol Heronsbridge

Ysgrifenyddes y Fforwm

Ms M Jones (MJ) Swyddog Cymorth i Ddisgyblion

1. Gair o groeso

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod y Fforwm.

2. Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cyng. C Smith, Mrs Angela Keller a Ms Claire Kristy am na allent ddod i'r cyfarfod. Ni chafwyd dim ymddiheuriad oddi wrth Mr Andrew Slade.

3. Ethol Cadeirydd

Cynigiodd aelodau'r Fforwm y dylid ail-benodi Mr R Davies yn Gadeirydd ar gyfer 2018-2019 a derbyniwyd yr enwebiad.

4. Ethol Is-Gadeirydd

Cynigiodd aelodau'r Fforwm y dylid ail-benodi Mr J Tarran yn Is-Gadeirydd ar gyfer 2018-2019 a derbyniwyd yr enwebiad.

5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod.

6. Materion yn codi o'r cyfarfod ar 27 Mawrth 2018

Eitem 9 - Y diweddaraf am dderbyniadau statudol

Rhoddodd DD ddiweddariad llafar ynghylch nifer yr apelau derbyn a oedd yn ymwneud â derbyniadau i ddsbarthiadau Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd ar gyfer mis Medi 2018. Roedd yr holl apelau yn ymwneud â gwrthod lleoedd i ddisgyblion yn Ysgol Gyfun

Bryntirion. Roedd pob plentyn dan sylw yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Yn wreiddiol, cofrestrwyd 25 o apelau ond tynnwyd 2 yn ôl. Yng nghanam 1, llwyddodd yr awdurdod lleol i brofi, ym mhob un o'r 23 o apelau a glywyd, y byddai'n niweidiol i'r plant gael eu derbyn i'r ysgol honno. Yng nghanam 2, cadarnhawyd 7 apêl a derbyniwyd y plant i'r ysgol. Ni chadarnhawyd 16 o apelau a threfnwyd bod y plant yn cael eu derbyn i ysgolion eraill.

Cadarnhaodd DD ac RD y byddai'r Fforwm yn derbyn gwybodaeth am bob mater sy'n ymwneud â threfniadau derbyn a godwyd mewn gwrandawriadau derbyn.

7. Adolygiad o lyfryn 'Dechrau yn yr Ysgol' 2019-2020

Hysbysodd DD yr aelodau fod Polisi Derbyn 2019-2020 eisoes ar gael ar wefan y Cyngor a chadarnhaodd MJ y bydd llyfryn 'Dechrau yn yr Ysgol' 2019-2020 ar gael ar y wefan ar gychwyn y rownd dderbyniadau statudol.

Soniodd DD ac RD wrth yr aelodau am y bwriad i newid diwyg y llyfryn 'Dechrau yn yr Ysgol' yn y dyfodol.

8. Polisi Derbyn i Ysgolion Drafft yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2020-2021

Ystyriodd aelodau'r Fforwm y Polisi Derbyn i Ysgolion drafft ar gyfer 2020-2021. Trafodwyd pob adran. Cytunwyd ar y newidiadau/pwyntiau penodol hyn:

Ceisiadau derbyn i ysgolion ar-lein

Newidiadau amrywiol drwy'r ddogfen i roi cyfri am weithredu/datblygu'r drefn hon.

Maint Dosbarthiadau Babanod

Hepgor y cyfeiriad at gyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod i 30 a'i ddisodli â chyfeiriad at reoliadau sy'n cyfyngu ar nifer y plant mewn dosbarthiadau derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu ymdrechion cyfredol Llywodraeth Cymru i leihau maint dosbarthiadau babanod i lai na 30.

Cyfeiriad y plentyn

Gwnaed newidiadau i efelychu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Cyfeiriad at fan preswyllo arferol y plentyn. Mae nodi man preswyllo'r plentyn yn sicrhau cydraddoldeb i rieni nad ydynt yn byw dan yr un to ond sy'n rhannu cyfrifoldeb dros y plentyn.

Addysg Gymraeg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, (Ysgol Gymraeg Cwm Garw gynt), wedi symud i'r Ysgol Gynradd Betws newydd ac fe'i hagogwyd ym mis Ionawr 2019. Bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am ysgwyddo holl gostau cludiant disgyblion cymwys, ond dim ond os yw man preswyllo'r disgyblion hynny'n nes at Ysgol Gynradd Gymraeg Calon Y Cymoedd nag ydyw at Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Cododd KJ bryderon ynghylch y cludiant y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu i blant sy'n mynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gyfun Llanhari. Nododd KJ fod y gefnogaeth hon yn peryglu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y sir a'i bod hefyd yn arwain at broblem ariannol. Hysbysodd RD yr aelodau yr ystyrid safbwyntiau pawb. Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i gael rhychwant eang o safbwyntiau. O ran trefn, mae'n briodol ystyried y gall y Cabinet ddirwyn y trefniadau hyn i ben. Cytunodd RD i ddarparu diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

Dyrannu lleoedd meithrin amser llawn a rhan-amser - yr amserlen

Dyddiadau arfaethedig.

Bydd yr hysbysiad ynghylch lleoedd meithrin rhan-amser yn cael ei rannu â rhieni/gwarcheidwaid ar 31 Hydref yn hytrach nag ym mis Tachwedd.

Trosglwyddo yn ystod y flwyddyn

Bydd y cyfnod y bydd ymgeiswyr yn ei dreulio ar y rhestr aros os ydynt yn cyflwyno cais y tu allan i'r rownd dderbyniadau arferol yn dychwelyd i dri mis o ddyddiad y llythyr gwrthod. Y cyfnod ar hyn o bryd yw un mis.

Cofrestru apêl

Yn 2020-2021, gall rhieni/gwarcheidwaid apelio ar-lein.

Ceisiadau hwyr (ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd)

Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau perthnasol a gyhoeddwyd **ar yr amod** bod y cais yn cyrraedd cyn i leoedd mewn ysgolion gael eu cynnig, a'i fod yn fodlon â rhesymau'r rhieni/gwarcheidwaid dros gyflwyno'r cais yn hwyr. Bydd yr awdurdod lleol yn prosesu pob cais hwyr arall ar ôl prosesu'r ceisiadau hynny a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau. Mae hyn yn cyd-fynd â Chod Derbyn i Ysgolion 2013. O ganlyniad i hyn, gall rhieni/gwarcheidwaid sy'n cyflwyno cais yn hwyr ganfod bod yr ysgol y maent yn dymuno anfon eu plentyn iddi eisoes yn llawn, hyd yn oed os yw'r ysgol honno yn eu dalgylch.

9. Dyddiadau cyffredin ar gyfer rownd dderbyniadau 2020-2021.

Nododd aelodau'r Fforwm bod dyddiadau arfaethedig y rownd dderbyniadau yn 2020-2021 wedi'u cynnwys yn y Polisi Derbyn i Ysgolion drafft, a ystyriwyd eisoes. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y polisi drafft.

10. Datblygu a gweithredu'r system ymgeisio am leoedd ar-lein

Hysbysodd RD aelodau'r Fforwm y bu gweithredu'r system ceisiadau ar-lein yn llwyddiant ysgubol a diolchodd i Dawn Davies, a fu'n rheolwr gweithredol ar y broses ar-lein, ac i'r Adran Technoleg Gwybodaeth. Mae'r system yn cynnig nifer o fanteision i ymgeiswyr ac i'r awdurdod lleol fel ei gilydd.

Rhodddwyd gwybodaeth i aelodau'r Fforwm am y camau datblygu nesaf.

Holodd SJ ynghylch y broses a ddilynir wrth drosglwyddo plant yn ystod y flwyddyn. Cadarnhaodd DD mai'r drefn a ddilynir bob tro wrth ddelio â throsglwyddiadau o ganlyniad i symud tŷ, neu os bernir nad oes angen derbyn y plentyn yn syth, yw gohirio'r trosglwyddo tan ddechrau'r tymor nesaf. Mae hyn yn cyd-fynd â Chod Derbyn i Ysgolion 2013 a'r protocol y cytunwyd arno rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion. Fodd bynnag, gellir trosglwyddo plentyn yn syth os yw'r ddwy ysgol dan sylw o'r farn na fyddai hyn yn amharu arno. Os oes angen trosglwyddo plentyn am ei fod wedi symud tŷ, neu os bernir bod angen trosglwyddo'r plentyn yn syth, bydd yr awdurdod lleol gweithredu'n syth.

11. Dyddiad cyfarfod y Fforwm yn Nhymor y Gwanwyn 2019

Cytunwyd am y tro i gynnal y cyfarfod ar 6 Mawrth 2019 am 2pm yn y Swyddfeydd Dinesig.

Gadawodd JE y cyfarfod am 3.30pm

12. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd dim materion eraill.